Estab. 1905

**CLWB GOLFF PORTHMADOG GOLF CLUB**

# Polisi Bygi

## Cyflwyniad

Mae Clwb Golff Porthmadog wedi datblygu Polisi Bygi er mwyn sicrhau bod y Clwb yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae cyngor cyfreithiol gan CCCCG (Cymdeithas Cynghori Cenedlaethol Clybiau Golff) wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu Polisi Bygi i sicrhau bod y clwb yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Clwb Golff Porthmadog yn croesawu defnyddio bygis er mwyn caniatáu mynediad i golff i unrhyw un sydd yn anabl fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf').

Bydd cydymffurfio â'r Ddeddf yn cael ei gyflawni trwy ganiatáu mynediad i gyfleusterau'r clwb i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio bygi a bydd y clwb yn trin pob defnyddiwr bygi yn yr un modd, heb fod angen dangos neu gadarnhau bod gan ddefnyddwyr unrhyw anabledd.

## Defnyddio Bygis mewn Cystadlaethau

Mae Clwb Golff Porthmadog yn caniatáu defnyddio bygis ym mhob cystadleuaeth.

## Llogi Bygis Clwb Golff Porthmadog

Nifer cyfyngedig o fygis sydd gan Glwb Golff Porthmadog felly bydd gofyn i ymwelwyr sy'n dymuno defnyddio'r bygis 2 sedd a ddarperir gan y clwb wirio bod rhai ar gael er mwyn osgoi unrhyw siomi.

Gall unrhyw aelod neu ymwelydd archebu bygis i'w llogi drwy Siop y Pro. Fodd bynnag, bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i berson a chanddo anabledd a gall argaeledd bygi gael ei dynnu'n ôl o dan yr amgylchiadau hyn. Ni ellid ond gweithredu hyn yn rhesymol os yw'r clwb yn cael gwybod am yr anabledd neu'r angen meddygol ymlaen llaw. Felly cynghorir yn gryf fod y

y clwb yn cael gwybod am unrhyw angen am fygi ar sail feddygol a bod cadarnhad meddygol yn cael ei gyflwyno mewn da bryd i alluogi staff y clwb i flaenoriaethu'r archeb.

Os ystyrir bod amodau'r tir neu'r tywydd yn anniogel neu'n anaddas ar gyfer defnyddio bygis y clwb, yna ni fyddant yn cael eu defnyddio.

Rhaid i bob defnyddiwr bygi gydymffurfio â'r Polisi Diogelwch Bygi ac arwyddo Ffurflen Gydnabod cyn ei ddefnyddio.

Bygis mewn perchnogaeth breifat (ymwelwyr)

Gall ymwelwyr ddefnyddio bygis sy'n eiddo preifat, ond dan amodau: -

• rhaid i ddyluniad y bygi fod ar gyfer ei ddefnyddio ar gwrs golff

• mae yswiriant atebolrwydd trydydd parti yn ofynnol, a rhaid cyflwyno tystysgrif ddilys cyn ei ddefnyddio

Os ystyrir bod y dyluniad yn anniogel ar gyfer tirwedd y cwrs, neu o dan yr amodau cyffredinol, yna mae'r clwb yn cadw'r hawl i wrthod. Gellir darparu bygi clwb cyflenwol os yw amodau yn caniatáu ei ddefnyddio'n ddiogel ac os cyflwynir cadarnhad meddygol o anabledd.

Estab. 1905

**CLWB GOLFF PORTHMADOG GOLF CLUB**

Er mwyn osgoi siom o dan yr amgylchiadau hyn, argymhellir yn gryf bod ymwelwyr yn cysylltu â Rheolwr y Clwb neu’r Pro cyn gynted â phosibl cyn ymweld â Chlwb Golff Porthmadog er mwyn cadarnhau bod eu bygi yn addas.

.

Rhaid i bob defnyddiwr bygi gydymffurfio â'r Polisi Diogelwch Bygi ac arwyddo Ffurflen Gydnabod

cyn unrhyw ddefnydd.

Bygis mewn perchnogaeth breifat (aelodau)

Gall aelodau ddefnyddio eu bygi eu hunain, ond mae amodau : -

• rhaid i'r aelod wneud cais yn gyntaf i fod yn Ddefnyddiwr Bygi Cofrestredig

• rhaid i ddyluniad y bygi fod yn un i'w ddefnyddio ar gwrs golff a dangos tystiolaeth os gofynnir am hynny

• mae yswiriant atebolrwydd trydydd parti yn ofynnol, a rhaid darparu tystysgrif ddilys fel rhan o’r broses gofrestru

Rhaid i bob defnyddiwr bygi gydymffurfio â'r Polisi Diogelwch Bygi ac arwyddo Ffurflen Gydnabod

cyn ei ddefnyddio.

Parc Bygi yr Aelodau

Dim ond gydag awdurdod y clwb y gellir defnyddio'r parc bygis a gellir tynnu hawl hwn yn ôl ar unrhyw amser.

Polisïau Clwb

Mae Polisi Bygi’r Clwb a’r dogfennau ategol ar gael ar wefan y Clwb o dan y tab Iechyd a Diogelwch.